**Rhif:** WG30068

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru (2017)

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN Digidol 978 1 4734 8139 8

# Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru (2017)

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pob corff sy'n ymwneud â'r meysydd addysg, gan gynnwys undebau, colegau AB, asiantaethau cyflogi, awdurdodau lleol, darparwyr hyfforddiant addysg a chyrff dyfarnu. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion ac adborth am yr ymgynghoriad ar egwyddorion ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu ehangach yng Nghymru. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Nathan Huish<br>Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk<br><br>Ffôn: 029 2082 3039 |
| **Copïau ychwanegol** | Mae’r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/ffioedd-cofrestru-ar-gyfer-y-gweithlu-addysg-yng-nghymru |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Ymgynghoriad – *Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru (2017)* (2017)<br>*Cynnig ar gyfer cofrestru gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg* (2015)<br>*Cynnig ar gyfer cofrestru ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith gyda Chyngor y Gweithlu Addysg* (2016)<br>*Cynnig ar gyfer cofrestru gweithwyr ieuenctid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg* (2016) |

# Cynnwys

**Cefndir** **2**
**Yr ymgynghoriad** **3**
**Crynodeb o'r ymatebion** **4**
Cwestiwn 1 4
Cwestiwn 2 6
Cwestiwn 3a 8
Cwestiwn 3b 9
Cwestiwn 4 10
**Ymateb y Llywodraeth** **12**
**Atodiad: Rhestr o ymatebwyr (Saesneg yn unig) [nid yw yn y ddogfen]**

# Cefndir

Sefydlodd Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Deddf 2014) Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") ar 1 Ebrill 2015. O'r dyddiad hwn ymlaen, roedd gofyniad newydd i bob athro Addysg Bellach (AB) gofrestru'n broffesiynol, ac o 1 Ebrill 2016, ehangwyd y broses gofrestru i gynnwys Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion ac mewn sefydliadau AB.

O 1 Ebrill 2017, y bwriad yw y caiff Gweithwyr Ieuenctid ac ymarferwyr dysgu Seiliedig ar Waith eu cofrestru.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau mewn perthynas â'r ffioedd sy'n daladwy ar gyfer cofrestru gyda'r Cyngor. Ar 27 Mehefin 2016, lansiodd Llywodraeth Cymru gyfnod ymgynghori o 8 wythnos yn gofyn am eich sylwadau ar y cynigion ar gyfer y model ffioedd cofrestru. Bydd eich safbwyntiau a'ch sylwadau yn helpu ac yn llywio'r broses o ddatblygu cyfres newydd o reoliadau a wneir o dan y Ddeddf ac a fydd ar waith ar gyfer unigolion a fydd yn cofrestru o 1 Ebrill 2017.

## Yr ymgynghoriad

Dosbarthwyd yr ymgynghoriad ar draws nifer o sectorau allweddol, gan gynnwys rhanddeiliaid ac ymarferwyr, gan ddefnyddio amrywiaeth o rwydweithiau.

Cafwyd cyfanswm o 49 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

Cafwyd ymatebion gan y sectorau canlynol.

| Ymatebwr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Undebau | 9 |
| Awdurdodau Lleol | 4 |
| Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion | 16 |
| Dysgwyr Seiliedig ar Waith | 1 |
| Darparwyr Hyfforddiant Addysg | 3 |
| Sefydliadau ac Elusennau Cenedlaethol | 3 |
| Gweithwyr Ieuenctid | 5 |
| Consortia | 1 |
| Unigolion | 7 |
| **Cyfanswm** | **49** |

Mae'r ddogfen hon yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad yn seiliedig ar yr ymatebion i bob cwestiwn. Nid yw'n anelu at nodi pob pwynt a wnaed gan ymatebwyr, ond yn hytrach, at dynnu sylw at y materion a'r themâu allweddol. Ceir rhestr o ymatebwyr ynghyd â'u hymatebion mewn Atodiad ar wahân.

# Crynodeb o'r ymatebion

## Cwestiwn 1

*A ydych yn cytuno y dylai lefel y ffioedd gael ei phennu yn ôl categorïau ymarferwyr, hynny yw athrawon ysgol, athrawon (darlithwyr) AB, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid, ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach/mewn ysgolion?*

**Ymateb i'r ymgynghoriad:**
Cafwyd 49 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 35 o ymatebwyr yn cytuno y dylai lefel y ffioedd gael ei phennu yn ôl categorïau ymarferwyr, roedd 7 o ymatebwyr yn anghytuno; a dewisodd 7 o ymatebwyr naill ai beidio ag ymateb neu beidio â chytuno nac anghytuno â'r cwestiwn.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn o blaid pennu lefel y ffioedd yn ôl categorïau ymarferwyr, ond er bod rhai wedi cyflwyno sylwadau ategol, dim ond cytuno y gwnaeth llawer ohonynt ac ni wnaethant gyfiawnhau eu penderfyniad.

Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylai'r ffi gofrestru adlewyrchu lefel eu henillion ni waeth beth fo'u categori cofrestru.

Rhestrir rhai o'r themâu cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr isod:

- Mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn cytuno â'r egwyddor y dylid pennu lefel y ffioedd er mwyn adlewyrchu'r graddfeydd cyflog amrywiol ar draws y gweithlu addysg cyfan. Cred y Ffederasiwn hefyd na ddylid gwahaniaethu rhwng staff rhan amser a staff llawn amser, oherwydd gallai hyn fod yn gymhleth (ac yn 'faich' gweinyddol costus).

- Ar hyn o bryd, dylid pennu lefel y ffioedd yn ôl categorïau ymarferwyr. Mae'r model hwn yn golygu y gall lefel y ffioedd ystyried lefelau cyfrifoldeb, rôl a statws gan bennu'r swm yn unol â hynny

- (ETS Cymru). Rydym yn cytuno â'r cynnig hwn.

- Dylid pennu'r ffi yn ôl lefel cymhwyster yr unigolyn, felly dylai pob unigolyn sy'n meddu ar radd yn y pynciau perthnasol dalu swm cyfwerth a dylai'r rheini â chymwysterau perthnasol eraill ar lefel is, gan gynnwys gweithwyr cymorth ieuenctid, dalu llai.

- Mae'r PYOG yn cytuno y dylai lefel y ffioedd adlewyrchu gallu grwpiau o weithwyr i dalu ffioedd cofrestru h.y. y dylai gweithwyr ar gyflogau is dalu ffi is na'r rheini ar strwythurau cyflog uwch.

- Mae gan bawb ym maes addysg un nod cyffredin - addysgu'r cyhoedd. Felly, credaf y dylai pawb dalu'r un ffi gofrestru.

- (ATL Cymru). Credwn nid yn unig y dylai'r cyflogwr fod yn talu'r ffioedd hyn, ond y dylent fod yn seiliedig ar lefel incwm yr unigolyn.

## Cwestiwn 2

*Ar hyn o bryd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn ystyried diwygio'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon (STPCD), sef dileu'r cyfeiriad a wneir i'r lwfans presennol ar gyfer athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, er mwyn i'r lwfans gael ei ailddosbarthu ar draws y gweithlu ehangach, gan leihau'r ffi ar gyfer pawb sy'n cofrestru o 2017 ymlaen, fel yr awgrymir o dan fodel 1. Os* ***nad*** *oes modd diwygio'r STPCD, a ydych yn cytuno bod model 2 yn fodel teg ac addas, er mwyn codi'r arian y bydd ei angen ar Gyngor y Gweithlu Addysg?*

**Ymateb i'r ymgynghoriad**
Cafwyd 49 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dywedodd 20 o ymatebwyr fod model dau yn fodel teg ac addas i'w ddefnyddio os nad oes modd diwygio'r STPCD, dywedodd 14 o ymatebwyr nad oedd; a dewisodd 15 o ymatebwyr naill ai beidio ag ymateb neu beidio â chytuno nac anghytuno â'r cwestiwn.

Ni ddarparodd pob ymatebwr sylwadau ategol mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Ar gyfer y rheini a ddarparodd sylwadau, rhestrir rhai o'r themâu cyffredin yn yr ymatebion isod:

- Yn gyffredinol, modelau 1 a 2, yn ôl pob tebyg, sy'n darparu'r lefel cyllid sydd ei hangen ar Gyngor y Gweithlu Addysg i weithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, ymddengys fod yr angen parhaus i Lywodraeth Cymru "gymorthdalu" ffioedd Cyngor y Gweithlu Addysg, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn anghyson â'r cysyniad o sefydlu Cyngor y Gweithlu modern.

- Os na ellir cymryd y swm fel y byddai'n ddymunol gwneud hynny ym model 1, yna dylid lleihau dyletswyddau a gofynion gweinyddu'r sefydliad er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad mewn incwm.

- Mae'n annheg gofyn am y ffi hon mewn un taliad. Mae'n ei gwneud yn anodd cynllunio gwariant misol, yn enwedig i'r rheini ar gyflogau is. Ac o fynd gam ymhellach, mae'n anos cynllunio pan fo'r ffi mor uchel â £78 (hyd yn oed os caiff rhywfaint ei ad-dalu'r mis canlynol).

- Cytunir â'r ddarpariaeth y dylai cyflogeion rhan amser dalu ffi gyfrannol.

- Ni ddarparwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan fod y cyfeiriad at y lwfans presennol i athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru bellach wedi'i ddileu o Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2016.

- Nid yw NASUWT yn derbyn bod Model 2 yn fodel teg ac addas gan ei fod yn ceisio adfachu'r lwfans gan athrawon drwy godi'r ffi y bydd yn ofynnol iddynt ei thalu.

- Fodd bynnag, rydym yn cytuno mewn egwyddor ac yn credu ei bod yn bwysig i Gyngor y Gweithlu Addysg egluro buddiannau cofrestru i ymarferwyr.

- Credwn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn priodol, ond dim ond os oes angen.

- Model 1 yw'r opsiwn a ffefrir a dylid ymchwilio i'r opsiwn hwn.

## Cwestiwn 3a

*Os na fydd yr arian ar gyfer y cymhorthdal ar gael, bydd angen defnyddio model 3. A ydych yn cytuno â'r cynnig i seilio'r ffioedd ar raddfa 3 y tabl, fel yr amlinellir ym mharagraffau 9.1 – 9.6 yr ymgynghoriad?*

**Ymateb i'r ymgynghoriad**
Cafwyd 49 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 19 o ymatebwyr yn cytuno, roedd 22 o ymatebwyr yn anghytuno a dewisodd 8 o ymatebwyr naill ai beidio ag ymateb neu beidio â chytuno nac anghytuno â'r cwestiwn.

## Cwestiwn 3b

*Os byddwch yn anghytuno â defnyddio graddfa 3 model 3, nodwch pa raddfa a fyddai'n well i'w defnyddio drwy roi tic ym mlwch perthnasol y tabl isod:*

**Ymateb i'r ymgynghoriad**
Ni fynegodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu dewis opsiwn o ran ar ba raddfa y dylid seilio lefel y ffioedd pe defnyddiwyd model ffioedd 3. O'r rheini a fynegodd opsiwn: nododd pedwar ymatebwr raddfa 1, nododd pum ymatebwr raddfa 2, nododd pum ymatebwr raddfa 3, nododd un ymatebwr raddfa 4 a nododd dau ymatebwr raddfa 7. Yn ddiddorol, nid oedd unrhyw ymatebwyr yn hoff o raddfeydd 5 na 6.

Rhestrir rhai o'r themâu cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr isod:

- Os na ellir cymryd y swm fel y byddai'n ddymunol gwneud hynny ym model 1, yna dylid lleihau dyletswyddau a gofynion gweinyddu'r sefydliad er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad mewn incwm.

- Ymddengys fod graddfa 4 yn gynnydd canrannol tecach i athrawon ysgol o gymharu â gweithwyr cymorth/ieuenctid.

- Graddfa 2 am nad yw'n newid gormod o'r lefel bresennol.

- Os oes angen corff proffesiynol (Nid oes angen un yn Lloegr) yna dylai'r gallu i ymuno a'r ffioedd fod yn gyfartal i bawb.

- Opsiwn graddfa 1 sy'n cynrychioli'r opsiwn tecaf i Weithwyr Cymorth Dysgu gan fod lefelau cyflog y mathau hyn o weithwyr yn isel.

- Ymddengys mai graddfa 3 yw'r opsiwn mwyaf rhesymol i athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion. Bydd y ffi gofrestru ar gyfer y ddau grŵp yn cynyddu, ond mae'r symiau a gynigir yn sicrhau bod y cynnydd yn gymharol deg.

## Cwestiwn 4

*Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.*

**Ymateb i'r ymgynghoriad**
Nid cwestiwn ie/na oedd y cwestiwn olaf hwn, ond cyfle i ymatebwyr gofnodi eu syniadau a'u sylwadau cyffredinol. Cafwyd 49 o ymatebion, ac o'u plith, darparodd 35 o ymatebwyr sylwadau. Roedd y sylwadau hyn yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion, a daeth rhai themâu cyffredin i'r amlwg yma a thrwy gydol yr ymgynghoriad. Nododd ymatebwyr y dadleuon arferol o ran seilio ffioedd ar gyflogau gwirioneddol, y dylai'r cyflogwr neu'r llywodraeth dalu cost y ffi; a bod gan Gyngor y Gweithlu Addysg waith i'w wneud o hyd i ennill parch a hyder y gweithlu addysg.

Rhestrir rhai o'r themâu cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr isod:

- Fel gweithwyr ieuenctid cymwys, yn aml ni chawn ein cydnabod fel gweithwyr proffesiynol er ein bod yn darparu sesiynau addysgol mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae gorfod tanysgrifio i gorff a reoleiddir yn sicrhau bod unigolion yn parhau i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol a gweithio tuag at ganlyniadau penodedig er mwyn adnewyddu eu tanysgrifiad.

- Gan fod y ffi yn cael ei didynnu o slipiau cyflog fel tâl gorfodol, oni fyddai ffi fisol yn fwy rhesymol gan y byddai hyn yn atal y gosb i'r rheini sy'n ymuno â'r proffesiwn addysgu a phroffesiynau cysylltiedig o fewn cyflog blwyddyn dreth. Ar adeg pan fo nifer yr athrawon yn lleihau, a ellir cyfiawnhau'r rhwystr ychwanegol hwn?

- Yn anad dim, nid wyf o'r farn y dylem orfod talu'r ffi hon o gwbl. Ymddengys mai'r ddadl yw y dylai'r byd addysg sefydlu corff proffesiynol gan mai dyna y mae'r proffesiynau eraill wedi'i wneud. Mae cymharu addysg â nyrsio, er enghraifft, lle mae cyfres wahanol o reolau a safonau, sydd fwy na thebyg yn fwy o faint hefyd, yn gorsymleiddio'r sefyllfa.

- Mae NASUWT yn pryderu y gallai'r cynigion a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori hon, y mae pob un ohonynt yn cael effaith andwyol ar athrawon, ddarparu rhybudd llym am y goblygiadau i athrawon sy'n gweithio yng Nghymru os caiff cyflog ac amodau athrawon eu datganoli i Lywodraeth Cymru.

- A ydych wedi ystyried graddfa o fewn y ffioedd uwch, sy'n ystyried y staff hynny â chymwysterau proffesiynol nad ydynt yn cael eu talu cymaint â'u cydweithwyr llawn amser am eu bod yn gweithio'n rhan amser?

- Gan fod Cyngor y Gweithlu Addysg yn gymharol newydd o hyd, mae angen dybryd iddo sefydlu ei hygrededd ac ennill ymddiriedaeth a hyder pob categori o gofrestrydd drwy ddangos y gall ychwanegu gwerth drwy hyrwyddo cofrestrwyr a darparu datblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd uchel y mae

ei angen yn ddirfawr, yn hytrach na phwysleisio ei swyddogaethau rheoleiddiol ar draul ei swyddogaethau cymorth.

## Ymateb y Llywodraeth

Roedd Llywodraeth Cymru yn falch o weld bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn o blaid gweithredu model ffioedd un ac yn cytuno â'r cynnig i weithredu'r model ffioedd hwnnw.

Yn yr ymgynghoriadau 'Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru' yn 2014 ac yn 2016, nododd Llywodraeth Cymru yn glir mai'r model ffioedd a ffafriwyd ganddi oedd model ffioedd un; lle y câi'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol ei diwygio ac y câi'r lwfans o £33 a dderbynnir gan athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ei ailddosbarthu.

Mewn ymateb i ymgynghoriad 2014; ac wrth ystyried yr holl ymatebion a wnaed, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i barhau â'i thrafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB) ar y diwygiad angenrheidiol i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol er mwyn rhoi model ffioedd un ar waith.

Ym mis Awst, cymeradwyodd STRB y diwygiad i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol ac yn dilyn hynny, dileodd adran 28 a'r lwfans o £33 i athrawon ysgol. Yn dilyn y gymeradwyaeth hon, cymeradwyodd Ysgrifennydd Cyllid a Llywodraeth Leol y Cabinet ac Ysgrifennydd Addysg y Cabinet gais i drosglwyddo £1 filiwn, yn weithredol o 2017-18, o'r Grant Cynnal Refeniw i ategu'r cymhorthdal cofrestru ar gyfer pob ymarferwr.
Nododd Llywodraeth Cymru, wrth ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn ofalus, fod thema gyson yn dod i'r amlwg mewn perthynas â phennu'r ffioedd cofrestru yn ôl enillion/cyflog yr ymarferwr a'r angen i ystyried p'un a yw ymarferwyr yn gweithio'n llawn amser neu'n rhan amser.

Ystyriwyd p'un a ddylid creu model ffioedd gyda ffioedd wedi'u gwahaniaethu yn seiliedig ar raddfeydd cyflog wrth ddatblygu Deddf 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn unwaith eto yn dilyn ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, yn dilyn gwaith dadansoddi pellach, mae'r math hwn o fodel yn gymhleth iawn a byddai'n gosod baich gweinyddol ar y Cyngor ac ar gyflogwyr i'w reoli; gan felly arwain at gynnydd mewn ffioedd cofrestru i bob ymarferwr er mwyn talu'r costau gweinyddol ychwanegol.

Gan gofio hyn, ac yn dilyn penderfyniadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol, STRB ac Ysgrifennydd Cyllid a Llywodraeth Leol y Cabinet; gall Llywodraeth Cymru roi model ffioedd un ar waith. Bydd y cymhorthdal o £1filiwn bellach o fudd i bob ymarferwr, yn enwedig yr ymarferwyr hynny sy'n cofrestru yn y categorïau cyflog is.